# POLISI TRWYDDEDU TACSIS A CHERBYDAU HURIO PREIFAT

# 2026

**Cynnwys**

**Tudalen:**

**Cyflwyniad………………………………...…………5**

Cymhwyso'r Polisi:

Nodau ac Amcanion y Polisi

Proses Drwyddedu a Dirprwyo Swyddogaethau

Gwyro o'r Polisi

Ffioedd Trwyddedau

**Trwyddedau Gyrru ar gyfer Cerbydau Hacni a Hurio Preifat 8**

Gofynion y Drwydded

Hyd y Drwydded

Proses Gwneud Cais

Addasrwydd a Phriodoldeb

Gwiriad DBS

Gwiriad o Gofnodion Troseddol Tramor

Profiad Gyrru a Safonau

Archwiliadau Meddygol

Dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb

Polisi Eithriad Meddygol y Ddeddf Cydraddoldeb

Hyfforddiant ac Asesu Gyrwyr

Hyfforddiant Diogelu

Ymgeiswyr sy'n siarad Saesneg fel ail iaith

Gwiriad Hawl i Weithio

Ymddygiad Gyrrwr

Amodau Gyrrwr

Cofrestr genedlaethol ar gyfer dirymiadau, ataliadau a gwrthodiadau trwyddedau cerbydau hacni a hurio preifat (NR3)

**Cerbydau Hacni a Hurio Preifat 18**

Proses ac Amodau Gwneud Cais

Addasrwydd a Phriodoldeb Perchennog
Gwiriad DBS
Gwiriad o Gofnodion Troseddol Tramor
Adeiladwaith Cerbydau Cyffredinol
Addasiadau/Offer Ychwanegol
Manyleb Cerbyd
Amodau Trwydded Cerbyd
Hyd y Drwydded
Oedran Cerbyd
Profi / Archwiliadau Cerbyd
Cerbydau sydd wedi'u Diddymu (*write off*)
Yswiriant
Tystysgrif Cofrestru V5
Riportio Damweiniau
Prisiau
Tacsimedrau
Systemau Rheoli a Dosbarthu / Mesuryddion GPS
Camerâu Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)
Systemau Fideo Pwynt Gwrthdaro (VPIS)
Eiddo Coll
Lliwiau ac Arwyddion
Hysbysebu
Taliadau â Cherdyn
Hygyrchedd
Hurio Dethol (Hurio Preifat yn Unig)
Cerbydau Hurio Preifat Difyrrwch/Digwyddiadau Arbennig gan gynnwys Limwsîns
Safleoedd Tacsi

**Gweithredwyr Cerbydau Hurio Preifat 29**

Proses ac Amodau Gwneud Cais

Hyd y Drwydded

Cyfrifoldebau ac Addasrwydd / Priodoldeb y Gweithredwr

Gwiriad DBS

Gwiriad o Gofnodion Troseddol Tramor

Amod y Drwydded

## Cydymffurfiaeth a Gorfodi Cyffredinol 32

Hunan-adrodd Deiliad y Drwydded

Gweithdrefn Disgyblu

Apeliadau

Gweithio mewn Partneriaeth

Ceisiadau a Chwynion Gwasanaeth

Gorfodi Trawsffiniol

## Atodiadau i gyd fel Dolenni wedi'u Hymgorffori 36

**Rhagarweiniad**

Mae Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat yn fath hanfodol o drafnidiaeth gyhoeddus. Maent yn darparu datrysiad trafnidiaeth uniongyrchol ymarferol ac yn darparu

gwasanaeth hanfodol i; pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig lle gall mathau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus fod yn annigonol, economi'r nos, teithwyr ag anableddau, ac mae ganddynt rôl bwysig wrth hwyluso cynhwysiant cymdeithasol.

Mae'n bwysig bod cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn bodloni safonau rheoleiddiol ac yn gallu cludo teithwyr yn ddiogel ac yn gyfforddus, gan sicrhau bod profiad y cwsmer yn un cadarnhaol.

Bydd y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn cynghori ymgeiswyr o'r safonau a'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni ac yn arwain y Cyngor yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau trwyddedu. **Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd ond gall fod yn destun adolygiadau interim os bydd angen.**

**Cymhwyso'r Polisi:**

Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Trwyddedu o dan Ddeddf Darpariaethau Amrywiol Llywodraeth Leol 1976 (fel y'i diwygiwyd) a Deddfau Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847. Mae ganddo'r ddyletswydd i gyflawni ei swyddogaethau trwyddedu mewn perthynas â:

- Trwyddedau Cerbydau Hacni
- Trwyddedau Gyrwyr Cerbydau Hacni
- Trwyddedau Cerbydau Hurio Preifat
- Trwyddedau Gyrwyr Hurio Preifat
- Trwydded Gweithredwr Cerbydau Hurio Preifat

Bydd y Polisi hwn yn berthnasol i'r mathau o drwyddedau a restrir uchod. Trwy gydol y Polisi hwn mae unrhyw gyfeiriad at y termau cyffredinol canlynol yn golygu:

- 'gyrrwr' - yn cyfeirio at yrrwr cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat
- 'cerbyd' – yn cyfeirio at gerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat
- ‘tacsi' - yn cyfeirio at gerbyd hacni
- ‘Mae 'CHP' yn cyfeirio at gerbyd hurio preifat
- 'gweithredwr' – yn cyfeirio at weithredwr cerbyd hurio preifat
- 'perchennog' – yn cyfeirio at berchennog cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat
- Mae 'deiliad trwydded' yn cyfeirio at ddeiliad trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat, trwydded cerbyd hacni neu drwydded cerbyd hurio preifat, neu drwydded gweithredwr cerbyd hurio preifat.
- Ystyr 'y cyngor' yw Cyngor Sir Caerfyrddin
- Ystyr 'Swyddog Awdurdodedig y Cyngor' yw unrhyw Swyddog Cyngor sydd wedi'i awdurdodi o dan Gynllun Dirprwyo'r Cyngor fel y'i cynhwysir yn y Cyfansoddiad.
- Ystyr 'plât trwydded' neu 'y plât' yw'r plât trwydded cerbyd a roddir i bob cerbyd ac y mae'n ofynnol ei arddangos yn allanol yng nghefn pob cerbyd trwyddedig, oni bai bod y cerbyd wedi'i eithrio.
- Ystyr 'y Pwyllgor' yw Pwyllgor Trwyddedu'r Cyngor.

Wrth ymgymryd â'i swyddogaeth drwyddedu, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw i'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847
- Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976,
- Deddf Trafnidiaeth 1985
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf Iechyd 2006
- Rheoliadau Di-fwg (Mangreoedd a Gorfodi)
- Rheoliadau Di-fwg (Gweithredwyr Cerbydau a Hysbysiadau Cosb) 2007
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Mewnfudo 2016
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rhoddwyd ystyriaeth i ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill, gan gynnwys:

- Canllawiau ar Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Mawrth 2014)
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
- Canllawiau ar y Côd Rheoleiddwyr Cymhwysedd 2014
- Yr Adran Drafnidiaeth "Canllawiau Arfer Gorau Trwyddedau Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat" (Mawrth 2010)
- Yr Adran Drafnidiaeth "Safonau Statudol Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat" Gorffennaf 2020
- Llywodraeth Cymru - "Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat: Canllawiau Trwyddedu" Mawrth 2021

**Nodau ac Amcanion y Polisi**

Nod cyffredinol trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yw diogelu'r cyhoedd a hyrwyddo diogelwch y cyhoedd.

Mae trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yn swyddogaeth ddatganoledig yng Nghymru. Yn nogfen Llywodraeth Cymru - "Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat: Canllawiau Trwyddedu," mae gan Lywodraeth Cymru y nod canlynol fel rhan o'i datganiad gweledigaeth:

'Ein nod yw diweddaru ein system drwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat fel ei bod yn addas at y diben yn y Gymru fodern. Rydym am greu un safon gyson a gaiff ei chymhwyso ledled Cymru, sy'n hyrwyddo diogelwch, yn cyfrannu at amgylchedd glanach, yn gwella profiad y cwsmer, ac yn hygyrch i bawb.'

Mae'r Cyngor yn cytuno â'r weledigaeth hon a bydd yn gweithio tuag at y nod a'r pedwar amcan canlynol:

- **Diogelwch** – Bydd gweithredwyr, cerbydau a gyrwyr yn ddiogel ac yn addas ar gyfer trwyddedu
- **Yr Amgylchedd** – dylai cerbydau trwyddedig gyfrannu at dargedau ar gyfer amgylchedd glanach
- **Cydraddoldeb** – Dylai pob teithiwr gael mynediad at gerbyd addas. Dylai gyrwyr a gweithredwyr ddarparu gwasanaeth sy'n gweddu i anghenion cwsmeriaid
- **Profiad y Cwsmer** – Dylai pob cwsmer brofi safon dda o wasanaeth tacsi / cerbyd hurio preifat.

Wrth hyrwyddo'r nodau a'r amcanion trwyddedu hyn, bydd y Cyngor yn disgwyl gweld deiliaid trwyddedau ac ymgeiswyr yn dangos yn barhaus eu bod yn bodloni neu'n rhagori ar y safonau a bennwyd gan y Cyngor fel y nodir yn y polisi hwn.

### Proses Drwyddedu a Dirprwyo Swyddogaethau

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn manylu ar bwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar faterion sy'n ymwneud â thrwyddedu tacsi.

Mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun dirprwyo lle mae pwerau penodol yn cael eu dirprwyo i Swyddogion Awdurdodedig ac Aelodau Etholedig sy'n aelodau o Bwyllgor Trwyddedu Tacsis. Mae copi o'r Cyfansoddiad sy'n cynnwys y cynllun dirprwyo ar gael ar wefan y Cyngor neu ar gais.

### Gwyro o'r Polisi

Wrth arfer ei ddisgresiwn wrth gyflawni ei swyddogaethau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw i'r Polisi hwn a'r amcanion a nodir ynddo.

Pan fo'n angenrheidiol i'r Awdurdod Trwyddedu wyro'n sylweddol oddi wrth y Polisi hwn, rhoddir rhesymau clir a sylweddol dros wneud hynny.

### Ffioedd Trwyddedau

Bydd ffioedd trwyddedau yn cael eu pennu er mwyn i'r Awdurdod Trwyddedu adennill y costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu, cyflwyno a gorfodi pob cyfundrefn drwyddedu, i'r graddau y caniateir gan statud.

Bydd y ffioedd yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd.

Gellir gweld y ffioedd trwyddedau cyfredol ar wefan y Cyngor.

# Trwyddedau Gyrru ar gyfer Cerbydau Hacni a Hurio Preifat

## Gofynion y Drwydded

Rhaid i unrhyw berson sy'n gyrru cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat feddu ar y drwydded briodol.

Mae trwyddedau gyrru cerbydau hacni yn cael eu cyflwyno yn unol ag adran 46 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847.

Mae trwyddedau gyrru cerbydau hurio preifat yn cael eu cyflwyno yn unol ag adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyflwyno trwydded ddeuol i yrru cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

Bydd unrhyw gyfeiriad at 'drwydded yrru' yn yr adran hon yn cyfeirio at drwyddedau gyrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat ar y cyd.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cyflwyno trwydded yrru i ymgeiswyr sy'n cael eu hystyried yn 'addas ac yn briodol i ddal trwydded, a bydd hyn yn caniatáu gyrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

## Hyd y Drwydded

Bydd trwyddedau gyrru yn cael eu rhoi am gyfnod o 3 blynedd; fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod Trwyddedu y disgresiwn i gyflwyno trwydded am gyfnod byrrach pan ystyrir ei bod yn briodol yn amgylchiadau'r achos unigol, neu ar gais yr ymgeisydd.

## Proses Gwneud Cais

Mae'r weithdrefn ymgeisio a'r canllawiau ar gyfer cael trwydded yrru cerbyd hacni/hurio preifat wedi'u manylu yma:-

## Addasrwydd a Phriodoldeb

Pwrpas y rhagofynion trwyddedu canlynol yw cynorthwyo'r Awdurdod Trwyddedu i benderfynu a yw ymgeisydd/gyrrwr yn berson 'addas a phriodol' i ddal trwydded, neu i barhau i ddal trwydded.

Yn absenoldeb diffiniad cyfreithiol o 'addas a phriodol', bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn defnyddio'r prawf canlynol:

***Heb unrhyw ragfarn, ac yn seiliedig ar y wybodaeth o'ch blaen, a fyddech chi'n caniatáu i berson yr ydych yn gofalu amdano, waeth beth fo'i gyflwr, deithio ar ei ben ei hun mewn cerbyd sy'n cael ei yrru gan y person hwn ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos?***

Er mwyn cynorthwyo ymhellach i ddeall dehongliad y diffiniad hwn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried materion sy'n eu cynorthwyo i benderfynu a yw

ymgeiswyr yn yrwyr diogel sydd â chofnodion gyrru da, yn feddyliol ac yn gorfforol heini, yn onest, a'u bod yn bersonau na fyddent yn manteisio ar eu sefyllfa i gam-drin, ymosod neu dwyllo aelodau o'r cyhoedd.

Wrth asesu addasrwydd ymgeisydd i ddal trwydded yrru, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried hanes troseddol yr ymgeisydd yn ei gyfanrwydd, ynghyd â'r holl dystiolaeth a gwybodaeth berthnasol arall gan gynnwys ei hanes (e.e. cwynion a chanmoliaeth gan y cyhoedd, cydymffurfiaeth ag amodau'r drwydded a pharodrwydd i gydweithredu â swyddogion trwyddedu) tra'n dal trwydded gan yr Awdurdod Trwyddedu neu unrhyw awdurdod arall. Rhoddir sylw arbennig i batrymau ymddygiad, pryd bynnag y gwnaethant ddigwydd, o ran tramgwyddau troseddol profedig ac ymddygiad arall a allai nodi y gallai diogelwch a lles y cyhoedd fod mewn perygl gan yr ymgeisydd.

Rhaid cydnabod hefyd y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried yr holl hanes ac ymddygiad troseddol, p'un a ddigwyddodd yr hanes neu'r ymddygiad penodol tra oedd yr ymgeisydd yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith trwyddedig cerbyd hacni neu hurio preifat ar y pryd, neu p'un a ddigwyddodd hynny yn ystod amser personol yr ymgeisydd. Mae'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn bod person neu unigolyn sydd â thueddiad i gyflawni troseddau a/neu ddangos ymddygiad annerbyniol tra nad yw'n cymryd rhan mewn gwaith cerbyd hacni neu waith hurio preifat yr un mor ddifrifol â throseddau a/neu ymddygiad annerbyniol a gyflawnwyd wrth gymryd rhan mewn gwaith cerbyd hacni neu hurio preifat.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn rhoi ystyriaeth arwyddocaol i'r ffaith y gall gyrwyr gario aelodau o'r cyhoedd sy'n agored i niwed fel pobl oedrannus, plant ar eu pen eu hun, personau anabl, menywod unigol, ymwelwyr tramor a phobl sydd wedi'u hanalluogi yn sgil alcohol neu sylweddau eraill.

Er mwyn asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried **Canllawiau y Sefydliad Trwyddedu ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau ym maes cerbydau hacni a hurio preifat**

## Gwiriad DBS

Er mwyn bodloni'r awdurdod ei fod yn berson 'addas a phriodol', bydd pob ymgeisydd am rôl gyrrwr cerbyd hacni neu hurio preifat yn cael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), sy'n cynnwys gwiriad o'r rhestrau gwahardd plant ac oedolion. Ar gyfer gyrwyr trwyddedig bydd y gwiriad hwn yn cael ei ailadrodd bob 6 mis.

Bydd gofyn i yrwyr sy'n ymgeisio danysgrifio i wasanaeth diweddaru'r DBS ar y drwydded gyntaf neu ar gyfer deiliaid trwydded presennol pan gyflwynir eu gwiriad datgelu nesaf. Rhaid i ddeiliaid trwydded gynnal eu tanysgrifiad am gyfnod eu trwydded. Rhaid i ddeiliad y drwydded dalu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chynnal y tanysgrifiad hwn. Rhaid i ddeiliad y drwydded roi caniatâd i'r awdurdod trwyddedu gynnal gwiriadau o'u statws DBS.

Os bydd y DBS yn rhoi gwybod bod gwybodaeth newydd ar gael, ni ddylid dibynnu ar y dystysgrif DBS wreiddiol mwyach, gofynnir am dystysgrif DBS newydd.

Efallai y bydd deiliaid trwydded sydd wedi methu â chynnal eu tanysgrifiad i'r gwasanaeth diweddaru gan y DBS yn cael eu trwydded wedi'i hatal hyd nes y bydd tystysgrif DBS newydd wedi'i darparu a bod yr awdurdod trwyddedu yn fodlon bod deiliad y drwydded yn parhau i fod yn 'addas ac yn briodol' i gael trwydded.

Dim ond os yw'r datgeliad wedi'i ddyddio o fewn un mis calendr cyn y cais a'i wneud o dan y categori "Gweithlu Arall- Gyrrwr Tacsi" y derbynnir tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Er mwyn helpu i asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded, bydd yr awdurdod trwyddedu yn rhoi sylw i **Ganllawiau'r Sefydliad Trwyddedu ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded ym maes cerbydau hacni a hurio preifat.**

Dylid nodi y bydd unigolion sy'n ymddangos ar y naill restr wahardd neu'r llall yn cael eu gwrthod yn rheolaidd, oni bai bod amgylchiadau eithriadol lle mae'r awdurdod trwyddedu o'r farn bod yr unigolyn, ar sail tebygolrwydd, yn 'addas ac yn briodol'.

**Gwiriad o Gofnodion Troseddol Tramor**

Bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu weld tystiolaeth o wiriad cofnod troseddol o'r wlad/gwledydd yr ymwelwyd â nhw sy'n cwmpasu'r cyfnod yr oedd yr ymgeisydd dramor yn achos pob ymgeisydd am drwydded yrru cerbyd hacni neu hurio preifat sydd wedi treulio 6 mis neu fwy yn olynol y tu allan i'r Deyrnas Unedig ers ei ben-blwydd yn 18 oed.

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd dalu unrhyw gostau ariannol gwiriadau o'r fath.

Ar gyfer dinasyddion yr UE (gan gynnwys dinasyddion y DU) dylai gwiriadau addas fod ar gael. Ar gyfer y gwledydd hynny nad oes gwiriadau ar gael ar eu cyfer, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gofyn am dystysgrif ymddygiad da wedi'i dilysu gan y llysgenhadaeth berthnasol. Rhaid i'r dystysgrif gael ei dilysu, ei chyfieithu a'i selio gan y Llysgenhadaeth neu'r Uchel Gomisiwn. Mae gwybodaeth am dystysgrifau ymddygiad da neu ddogfennau tebyg o nifer o wledydd ar gael gan:**GOV.UK - Gwiriadau Cofnodion Troseddol ar gyfer Ymgeiswyr Tramor**.

Os nad yw ymgeisydd yn gallu cael tystysgrif ymddygiad da, ni ddylai symud ymlaen â'i gais a dylai gysylltu â'r awdurdod trwyddedu i gael rhagor o wybodaeth.

Rhaid i wiriadau hanes troseddol tramor fod wedi'u cael o fewn y cyfnod o 6 mis cyn y cais.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gofyn am unrhyw Dystysgrif Ymddygiad Da y gall yr ymgeisydd ei chael waeth beth yw oedran y ddogfen.

Bydd yn ofynnol i Dystysgrifau Ymddygiad Da sydd mewn iaith heblaw Saesneg gael eu cyfieithu i'r Saesneg ar draul yr ymgeisydd gan wasanaeth cyfieithu annibynnol a rhaid gwirio'r cyfieithiad.

**Profiad Gyrru a Safonau**

Rhaid i bob ymgeisydd fod ag o leiaf 12 mis o brofiad gyrru h.y. rhaid iddo fod â thrwydded yrru lawn yn y DU, trwydded yrru a gyhoeddwyd gan aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd neu "drwydded gyfnewidiol" arall fel y'i diffinnir yn Neddf Traffig Ffyrdd 1988 am o leiaf 12 mis cyn dyddiad y cais.

Ar adeg y cais, rhaid i bob ymgeisydd fod â thrwydded yrru'r DU ar gyfer cerbydau Categori B am 12 mis. Gellir dod o hyd i fanylion am ffyrdd o drosi trwydded yrru dramor i drwydded yrru'r DU drwy fynd i: **https://www.gov.uk/exchange-foreign-driving-licence**

Er mwyn sicrhau bod safon yrru'r ymgeisydd yn addas, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cynnal gwiriad o statws trwydded yrru Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) yr ymgeisydd i weld hanes gyrru'r ymgeisydd. Bydd y gwiriad hwn yn cael ei gynnal cyn rhoi'r drwydded gyntaf, cyn adnewyddu trwydded yrru ac ar unrhyw adeg yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol gan yr Awdurdod Trwyddedu.

**Archwiliadau Meddygol**

Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod y dylai gyrwyr trwyddedig gael safonau meddygol llymach na'r rhai sy'n berthnasol i yrwyr ceir arferol oherwydd eu bod yn cario aelodau o'r cyhoedd, sy'n disgwyl cael taith ddiogel; maent ar y ffordd am oriau hirach na'r rhan fwyaf o yrwyr ceir; ac efallai y bydd yn rhaid iddynt gynorthwyo teithwyr anabl a chario bagiau. Felly, mae'n ofynnol i bob ymgeisydd am drwydded yrru cerbyd hacni/hurio preifat fodloni safonau meddygol ffitrwydd i yrru Grŵp 2 yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau. Rhaid i'r archwiliad meddygol gael ei gynnal gan feddyg teulu yr ymgeisydd ei hun neu feddyg teulu arall ym mhractis cofrestredig yr ymgeisydd sydd â mynediad llawn i'w gofnodion meddygol.

Gyda chytundeb ymlaen llaw gan yr awdurdod trwyddedu, gall asesiad meddygol gael ei gynnal gan feddygfa cofrestredig arall cyn belled â bod crynodeb o hanes meddygol llawn yr ymgeisydd wedi'i weld a'i asesu gan y meddyg teulu hwnnw.

Caiff yr awdurdod trwyddedu gyfarwyddo unrhyw ddeiliad trwydded i ddarparu tystiolaeth foddhaol ar ffurf tystysgrif feddygol, sy'n nodi bod deiliad y drwydded yn bodloni safonau gofynnol Grŵp 2, os cwestiynir ei addasrwydd meddygol.

Ni fydd unrhyw ymgeisydd am roi neu adnewyddu trwydded nad yw'n gallu bodloni'r awdurdod trwyddedu ei fod yn bodloni'r safon feddygol ofynnol yn cael trwydded wedi'i rhoi iddo, neu ni chaiff y drwydded ei hadnewyddu, neu chaiff ei dirymu.

Mae'r gofyniad i ymgeiswyr / gyrwyr trwyddedig gwblhau archwiliad meddygol fel a ganlyn:

- Ar gais, ac yna bob 5 mlynedd rhwng 45 a 65 oed
- Bob blwyddyn pan fydd y gyrrwr yn 65 oed neu'n hŷn
- Neu unrhyw bryd fel sy'n ofynnol gan yr awdurdod trwyddedu neu'r ymarferydd meddygol.

Mae'r ffurflen feddygol yn ddilys am 4 mis o'r dyddiad y mae'r meddyg, yr optegydd neu'r optometrydd sy'n cynnal yr archwiliad yn ei llofnodi.

Mae'n ofynnol i ddeiliaid trwydded roi gwybod i'r awdurdod trwyddedu am unrhyw salwch neu gyflwr sy'n effeithio ar eu gallu i yrru.

Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chael y dystysgrif feddygol berthnasol i'w talu gan yr ymgeisydd/deiliad y drwydded.

Gallwch ddod o hyd i'r ffurflen feddygol:

**Dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod sawl dyletswydd gyfreithiol ar yrwyr trwyddedig wrth gludo teithwyr ag anableddau.

<u>Cŵn Cymorth</u>
Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswyddau ar Yrwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat trwyddedig i gario cŵn tywys, cŵn clyw a chŵn cymorth eraill sy'n cyd-deithio â phobl anabl, ac i wneud hynny heb dâl ychwanegol.

Mae'r dyletswyddau hyn yr un mor berthnasol i gŵn a ddarperir gan elusennau'r DU sy'n gysylltiedig â Assistance Dogs UK, sefydliadau tramor cyfatebol, neu gŵn cymorth sydd wedi'u hyfforddi gan eu perchnogion; p'un a yw'r ci yn gwisgo harnais neu siaced adnabyddadwy neu beidio, neu'n destun ardystiad ffurfiol. Pan fydd darpar deithiwr yn rhoi gwybod i yrrwr bod ci y maent yn dymuno teithio gydag ef yn gi cymorth, dylid derbyn hyn heb ei amau.

Mae cŵn cymorth yn cael eu hyfforddi i reidio gyda'u perchennog ym mhrif ran y cerbyd i deithwyr, fel arfer yn gorwedd wrth ei draed, a bydd y perchennog yn cyfarwyddo ei gi i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd. Dylid gofyn i deithwyr â chŵn cymorth a oes unrhyw sedd yn y cerbyd yn well ganddynt - efallai y byddai'n well gan rai eistedd yn sedd flaen teithiwr cerbyd salŵn, gan y gall fod mwy o le wrth y traed i'r ci eistedd ynddo. Dylai gyrwyr fod yn barod i ddarparu unrhyw gymorth rhesymol arall y gofynnir amdano gan y teithiwr; fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd angen cymorth ar gŵn cymorth i fynd i mewn neu allan o'r rhan fwyaf o gerbydau heblaw am agor drws y teithiwr. Ni ddylai gyrwyr geisio gwahanu cŵn cymorth oddi wrth eu perchnogion trwy fynnu bod y ci yn reidio mewn rhan wahanol o'r cerbyd – gall gwneud hynny achosi trallod i'r ci a'r perchennog. Gall cŵn cymorth reidio yn ardal lwytho car stad yn y cefn, os yw perchennog y ci yn cydsynio i hyn.

Mae cŵn cymorth yn cael eu magu a'u dewis am eu natur dawel ac yn derbyn hyfforddiant arbenigol sylweddol cyn dechrau eu rolau. Byddant yn cael eu brwsio ac ati yn rheolaidd ynghyd ag archwiliadau iechyd milfeddygol. Er ein bod yn cydnabod y gall nifer o yrwyr nad ydynt yn brofiadol yng nghwmni cŵn deimlo'n anesmwyth o fod mor agos at un, nid yw hyn yn sail ddilys dros wrthod cario teithiwr gyda chi cymorth. Yn yr un modd, nid yw credoau crefyddol ychwaith yn darparu sail dros wrthod cario cŵn cymorth mewn tacsis a cherbydau hurio preifat, na gofynion cyfreithiol eraill o dan gyfraith y DU.

Cadeiriau Olwyn
Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswyddau ar Yrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat trwyddedig sy'n gweithredu Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn i gludo teithwyr mewn cadair olwyn a darparu cymorth i sicrhau diogelwch a chysur rhesymol, ac i wneud hynny heb unrhyw dâl ychwanegol.

Mae'r mathau o gymorth a allai fod ei angen yn cynnwys:

- Os yw'r teithiwr yn dymuno aros yn y gadair olwyn, rhaid i'r gyrrwr helpu'r teithiwr i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd a diogelu'r gadair olwyn yn unol â manyleb y cerbyd.
- Os yw'r teithiwr eisiau trosglwyddo i sedd, rhaid i'r gyrrwr ei helpu i fynd allan o'r gadair olwyn ac i mewn i sedd ac yn ôl i'r gadair olwyn; rhaid i'r gyrrwr hefyd lwytho'r gadair olwyn i'r cerbyd ynghyd ag unrhyw fagiau.

Bydd gyrrwr sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r dyletswyddau uchod heb amddiffyniad dilys yn cyflawni trosedd a gall gael dirwy o hyd at £1,000 am bob tramgwydd ar gael ei gollfarnu. Gall troseddau hefyd arwain at ddirymu neu atal trwyddedau tacsi.

Diffinnir 'cadair olwyn gyfeirio' mewn statud fel un sydd â'r dimensiynau canlynol: Hyd: 1200mm (tua 48") gan gynnwys platiau troed Lled: 700mm (28") Cyfanswm uchder eistedd: 1350mm (54") Uchder y stôl droed: 150mm (6")

Rhagwelir y bydd y dimensiynau uchod ar gyfer cadair olwyn gyfeirio yn cwmpasu'r mwyafrif o gadeiriau olwyn â llaw – fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall rhai cadeiriau olwyn gydag ymarferoldeb arbenigol, neu gadeiriau olwyn modur a sgwteri symudedd, fod yn fwy na'r dimensiynau hyn ac efallai na ellir eu llwytho a'u cario'n ddiogel ym mhob tacsi dynodedig. Mewn achosion o'r fath, bydd disgwyl i yrrwr asesu a ellir cario'r teithiwr yn ddiogel yn ei gerbyd, cario'r teithiwr os gellir sicrhau ei ddiogelwch a'i gysur rhesymol, neu gynorthwyo'r teithiwr i ddod o hyd i gerbyd amgen addas fel arall, lle mae hyn yn ymarferol. Gall amgylchiadau o'r fath fod yn amddiffyniad i drosedd a grybwyllir uchod.

Ym mhob achos, rydym yn disgwyl i yrwyr drin teithwyr gyda pharch a sensitifrwydd, ac i ddarparu esboniad clir i'r teithiwr pam nad ydynt wedi gallu eu cludo.

## Polisi Eithriadau Meddygol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb

Er mwyn gwella cydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb, ac i gefnogi gyrwyr sydd â chyflyrau meddygol gwirioneddol sy'n eu hatal rhag ymgymryd â'r dyletswyddau o dan y Ddeddf a ddisgrifir uchod yn llawn, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r **Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat: Polisi Eithriadau Meddygol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb**

## Hyfforddiant ac Asesu Gyrwyr

Mae gan yrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gyfrifoldeb pwysig mewn cludo teithwyr sy'n talu am gludiant yn ddiogel. Disgwylir i yrwyr weithredu mewn ffordd broffesiynol bob amser a darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae angen cwblhau hyfforddiant er mwyn cynorthwyo gyrwyr i fod yn barod i gyflawni eu dyletswyddau.

Fideos Hyfforddi Llywodraeth Cymru - **https://www.youtube.com/playlist?list=PLHBVoCVw4XZSNQKFPCOuP2XtKtiPnA9LD**

Bydd gyrwyr wedyn yn cael eu hasesu i ddangos bod ganddynt ddealltwriaeth o'r materion y gallant eu hwynebu yn y rôl ac i brofi bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol.

Rhaid i ymgeiswyr fod wedi cwblhau'r prawf gwybodaeth ac addasrwydd yn llwyddiannus cyn gwneud cais am drwydded yrru newydd. Mae'r prawf Gwybodaeth ac Addasrwydd yn cynnwys cyfres o gwestiynau mewn perthynas ag ardal Sir Gaerfyrddin yn ogystal â chwestiynau mewn perthynas â'r polisi hwn, amodau'r drwydded, deddfwriaeth tacsi, diogelu a rhifedd sylfaenol. Rhaid i ymgeiswyr gyflawni cyfradd lwyddo o 80% o leiaf. Os bydd ymgeiswyr yn methu'r prawf gwybodaeth ddwywaith, bydd eu cais yn cael ei wrthod. Bydd disgwyl i ymgeiswyr sy'n sefyll y prawf gwybodaeth ac addasrwydd fod â gwybodaeth flaenorol am brif lwybrau a lleoliad prif drefi Sir Gaerfyrddin a bod wedi gwylio'r fideo hyfforddiant diogelu (gweler yr adran nesaf).

## Hyfforddiant Diogelu

Mae gan yrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gyfrifoldeb pwysig mewn cludo teithwyr sy'n talu am gludiant yn ddiogel. Disgwylir i yrwyr weithredu mewn ffordd broffesiynol bob amser a darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol.

Gall gyrwyr trwyddedig yn aml fod yn lygaid a chlustiau cymuned. Gall hyfforddiant fod yn bwysig wrth gynorthwyo gyrwyr trwyddedig i gydnabod pan fyddant yn cludo teithwyr sydd mewn perygl o gam-drin a chamfanteisio.

Rhaid i bob ymgeisydd newydd am drwydded yrru cerbyd hacni/hurio preifat ymgymryd â hyfforddiant diogelu. Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar gydnabod yr

hyn sy'n gwneud oedolion a phlant yn agored i niwed, ac ar arwyddion o drais, camfanteisio'n rhywiol, llinellau cyffuriau a masnachu pobl. Mae'n cynnwys enghreifftiau o siwrneiau amheus yn ogystal â gwybodaeth am gynnal ffiniau proffesiynol.

Mae'r hyfforddiant ar ffurf y fideo canlynol. Mae'r prawf gwybodaeth ac addasrwydd gyrwyr yn cynnwys cwestiynau yn seiliedig ar gynnwys y fideo a rhaid ei basio cyn cael trwydded.

Gwylio'r fideo: **Hyfforddiant diogelu ar gyfer gyrwyr a chynorthwywyr teithwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat**

**Ymgeiswyr sy'n siarad Saesneg fel ail iaith**

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir ethnig. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gyrwyr yn gallu cyfathrebu â theithwyr yn effeithiol yn yr iaith Saesneg a bod ganddynt y gallu i ddarllen a deall y gofynion statudol a osodir arnynt.

Pan fo'n amlwg yn ystod y broses ymgeisio nad yw ymgeisydd yn gallu deall neu gyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd ymgymryd â Chwrs Sgiliau am Oes Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill, neu gymhwyster cyfatebol ar lefel mynediad 3, ar ei gost ei hun, cyn bwrw ymlaen â'r broses ymgeisio.

**Gwiriad Hawl i Weithio**

Mae'n ofyniad o dan Ddeddf Mewnfudo 2016 bod yn rhaid i bob ymgeisydd ddangos bod ganddynt yr hawl i weithio yn y DU cyn rhoi trwydded.

Unwaith y bydd y gofyniad hwn wedi'i fodloni, ni fydd angen prawf pellach oni bai bod yr hawl i weithio wedi'i chyfyngu i amser penodol, ac yn yr achos hwnnw bydd angen prawf pellach i ddangos hawl barhaus i weithio.

Ni fydd ymgeiswyr nad ydynt yn gallu dangos yr hawl i weithio yn y DU yn llwyddiannus yn cael trwydded.

Pan fydd deiliad trwydded yn torri deddfau mewnfudo, bydd hyn yn sail i adolygu, atal neu ddirymu trwydded.

Os bydd caniatâd mewnfudo yn cael ei dorri'n fyr, bydd deiliad y drwydded yn cyflawni trosedd os nad ydynt yn dychwelyd y drwydded yrru cerbyd hacni, hurio preifat neu'r drwydded weithredwr i'r awdurdod trwyddedu, a gallant gael dirwy amdano.

**Ymddygiad Gyrrwr ac Amodau'r Drwydded**

Disgwylir bod gyrwyr trwyddedig yn ymddwyn mewn ffordd broffesiynol ac yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel bob amser.

**Cofrestr genedlaethol ar gyfer dirymu a gwrthod trwyddedau gyrru cerbydau hacni a hurio preifat (NR3)**

Mae'r awdurdod trwyddedu yn darparu gwybodaeth i'r Gofrestr Genedlaethol o Wrthod a Dirymu Trwyddedau Tacsi (NR3), sef dull i awdurdodau trwyddedu rannu manylion unigolion y cafodd eu trwydded gyrru cerbyd hacni neu hurio preifat ei dirymu neu ei hatal neu y cafodd eu cais am un ei gwrthod. Mae hyn yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i freinio yn yr awdurdod trwyddedu – hynny yw, asesu a yw unigolyn yn berson addas a phriodol i ddal trwydded yrru cerbyd hacni neu drwydded yrru cerbyd hurio preifat.

Felly:

- Pan fydd trwydded yrru cerbyd hacni/hurio preifat yn cael ei dirymu, ei hatal neu fod cais am un yn cael ei wrthod, bydd yr awdurdod yn cofnodi'r penderfyniad hwn yn awtomatig ar NR3.
- Bydd pob cais am drwydded newydd neu adnewyddu trwydded yn cael ei wirio'n awtomatig ar NR3. Os yw chwiliad o NR3 yn dangos cyfatebiaeth ag ymgeisydd, bydd yr awdurdod yn gofyn am ragor o wybodaeth am y cofnod ar y gofrestr gan yr awdurdod a'i gofnododd. Dim ond mewn perthynas â'r cais am drwydded benodol y bydd unrhyw wybodaeth a dderbynnir o ganlyniad i chwiliad NR3 yn cael ei defnyddio ac ni chaiff ei chadw y tu hwnt y broses o benderfynu ar y cais hwnnw.

Bydd y wybodaeth a gofnodir ar NR3 ei hun yn gyfyngedig i:

- Enw
- Dyddiad Geni
- Cyfeiriad a Manylion Cyswllt
- Rhif Yswiriant Gwladol
- Rhif Trwydded Yrru
- Penderfyniad a Wnaed
- Dyddiad y Penderfyniad
- Dyddiad Gweithredu'r Penderfyniad

Bydd gwybodaeth yn cael ei chadw ar NR3 am gyfnod o 11 mlynedd.

Mae hyn yn rhan orfodol o wneud cais am gael trwydded yrru cerbyd hacni / cerbyd hurio preifat.

Bydd pob cais am drwydded newydd neu adnewyddu trwydded yn cael ei wirio'n awtomatig ar NR3. Os yw chwiliad o NR3 yn dangos cyfatebiaeth ag ymgeisydd, bydd yr awdurdod yn gofyn am ragor o wybodaeth am y cofnod ar y gofrestr gan yr awdurdod a'i gofnododd. Dim ond mewn perthynas â'r cais am drwydded benodol y

bydd unrhyw wybodaeth a dderbynnir o ganlyniad i chwiliad NR3 yn cael ei defnyddio ac ni chaiff ei chadw y tu hwnt y broses o benderfynu ar y cais hwnnw.

Bydd y wybodaeth a gofnodir ar NR3 ei hun yn gyfyngedig i:

*Enw *Dyddiad Geni *Cyfeiriad a Manylion Cyswllt *Rhif Yswiriant Gwladol *Rhif Trwydded Yrru *Penderfyniad a Wnaed *Dyddiad y Penderfyniad *Dyddiad Gweithredu'r Penderfyniad

Bydd gwybodaeth yn cael ei phrosesu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Mae unrhyw wybodaeth a gaiff ei chwilio, ei darparu neu ei derbyn o NR3, neu o dan NR3, yn angenrheidiol i swyddogaethau trwyddedu statudol yr awdurdod sef sicrhau bod pob gyrrwr yn addas ac yn briodol i ddal y drwydded berthnasol. Ni fwriedir y bydd unrhyw ddata NR3 yn cael ei drosglwyddo allan o'r Deyrnas Unedig.
Os hoffech godi unrhyw fater sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys drwy ddibynnu ar unrhyw un o'r hawliau a roddir i wrthrychau data o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gallwch wneud hynny i Swyddog Diogelu Data'r awdurdod yn Datganiad Preifatrwydd Diogelu Data - Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cais gan wrthrych y data.

Mae gennych bob amser yr hawl i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Gellir dod o hyd i gyngor ar sut i godi pryder ynghylch trin data ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: **https://ico.org.uk/make-a-complaint/**

## Cerbydau Hacni a Hurio Preifat

### Proses Gwneud Cais

Bydd yr holl geisiadau yn cael eu penderfynu ar eu rhinweddau eu hunain. Mae'r weithdrefn ymgeisio ar gyfer cael trwydded gerbyd yn cael ei fanylu yma

### Addasrwydd a Phriodoldeb Perchennog

Er efallai na fydd gan berchnogion cerbydau gysylltiad uniongyrchol â theithwyr, mae'n bwysig sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn 'addas ac yn briodol' i ddal trwydded, er mwyn sicrhau bod cerbydau wedi'u trwyddedu'n briodol er mwyn cynnal manteision diogelwch y gyfundrefn drwyddedu.

Wrth asesu addasrwydd ymgeisydd i ddal trwydded cerbyd, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried hanes troseddol yr ymgeisydd yn ei gyfanrwydd, ynghyd â'r holl dystiolaeth a gwybodaeth berthnasol arall gan gynnwys ei hanes (e.e. cwynion a sylwadau cadarnhaol gan y cyhoedd, cydymffurfiaeth ag amodau'r drwydded a pharodrwydd i gydweithredu â swyddogion trwyddedu) tra'n dal trwydded gan yr Awdurdod Trwyddedu neu unrhyw awdurdod arall. Bydd sylw arbennig yn cael ei roi i batrymau ymddygiad, waeth beth fo'r raddfa amser y maent wedi digwydd, o ran tramgwyddau troseddol profedig ac ymddygiad arall a allai nodi y gallai diogelwch a lles y cyhoedd fod mewn perygl gan yr ymgeisydd.

Rhaid cydnabod hefyd y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried yr holl hanes ac ymddygiad troseddol, p'un a ddigwyddodd yr hanes neu'r ymddygiad penodol tra oedd yr ymgeisydd yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith trwyddedig cerbyd hacni neu hurio preifat ar y pryd, neu p'un a ddigwyddodd hynny yn ystod amser personol yr ymgeisydd. Mae'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn bod person neu unigolyn sydd â thueddiad i gyflawni troseddau a/neu ddangos ymddygiad annerbyniol tra nad yw'n cymryd rhan mewn gwaith cerbyd hacni neu hurio preifat yr un mor ddifrifol â throseddau a/neu ymddygiad annerbyniol a gyflawnwyd wrth gymryd rhan mewn gwaith cerbyd hacni neu hurio preifat.

Er mwyn cynorthwyo i asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried '*Canllawiau ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau ym maes cerbydau hacni a hurio preifat' y Sefydliad Trwyddedu*
***Canllawiau ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau ym maes cerbydau hacni a hurio preifat***

**Gwiriad DBS**

Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd am drwydded cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat gyflwyno datgeliad sylfaenol gan y DBS er mwyn bodloni'r awdurdod ei fod yn berson 'addas a phriodol. Bydd y gwiriadau hyn yn cael eu hailadrodd ar gyfer deiliaid trwyddedau cerbydau bob blwyddyn. Bydd cost y gwiriadau hyn yn cael ei dalu gan yr ymgeisydd/deiliad y drwydded.

Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr sydd eisoes yn dal trwydded cerbyd hacni neu hurio preifat gyda'r awdurdod hwn ddarparu'r datgeliad sylfaenol fel rhan o'u cais am drwydded cerbyd hacni/hurio preifat.

Er mwyn helpu i asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded, bydd yr awdurdod trwyddedu yn rhoi sylw i **Ganllawiau'r Sefydliad Trwyddedu ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau ym maes cerbydau hacni a hurio preifat**

Ni fydd troseddau gyrru fel arfer yn cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad ar gyfer deiliaid trwyddedau cerbydau.

Ni fydd gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn gwiriad DBS manwl na fyddai'n cael ei datgelu ar wiriad sylfaenol yn cael ei hystyried fel rhan o'r asesiad ar gyfer trwydded cerbyd.

**Gwiriad o Gofnodion Troseddol Tramor**

Bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu weld tystiolaeth o wiriad cofnod troseddol o'r wlad/gwledydd yr ymwelwyd â nhw sy'n cwmpasu'r cyfnod pan oedd yr ymgeisydd dramor yn achos pob ymgeisydd am drwydded cerbyd hacni neu hurio preifat sydd wedi treulio 6 mis neu fwy yn olynol y tu allan i'r Deyrnas Unedig ers ei ben-blwydd yn 18 oed.

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd dalu unrhyw gostau ariannol gwiriadau o'r fath.

Ar gyfer dinasyddion yr UE (gan gynnwys dinasyddion y DU) dylai gwiriadau addas fod ar gael. Ar gyfer y gwledydd hynny lle nad oes gwiriadau ar gael ar eu cyfer, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gofyn am dystysgrif ymddygiad da wedi'i dilysu gan y llysgenhadaeth berthnasol. Rhaid i'r dystysgrif gael ei dilysu, ei chyfieithu a'i selio gan y Llysgenhadaeth neu'r Uchel Gomisiwn. Mae gwybodaeth am dystysgrifau ymddygiad da neu ddogfennau tebyg o nifer o wledydd ar gael gan: https://www.gov.uk/government/publications/criminal-records-checks-for-overseas-applicants

Os nad yw ymgeisydd yn gallu cael tystysgrif ymddygiad da, ni ddylech symud ymlaen â'ch cais a dylech gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu i gael rhagor o wybodaeth.

Rhaid i wiriadau hanes troseddol tramor fod wedi'u cael o fewn y cyfnod o 6 mis cyn y cais.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gofyn am unrhyw Dystysgrif Ymddygiad Da a allai fod gan yr ymgeisydd waeth beth fo oedran y ddogfen.

Bydd yn ofynnol i dystysgrifau Ymddygiad Da sydd mewn iaith heblaw Saesneg gael eu cyfieithu i'r Saesneg ar draul yr ymgeisydd gan wasanaeth cyfieithu annibynnol a rhaid gwirio'r cyfieithiad.

**Adeiladwaith Cerbydau Cyffredinol**
Rhaid i bob cerbyd i'w ystyried ar gyfer trwyddedu gydymffurfio â:

a. Pob agwedd ar ofynion Rheoliadau Cerbydau Modur (Cymeradwyaeth Math) 1980

b. Rheoliadau Cerbydau Modur (Cymeradwyaeth Math) (Prydain Fawr 1984).

c. Rheoliadau Cerbydau Modur (Cymeradwyaeth Math CE) 1998 ac unrhyw ddeddfwriaeth genedlaethol neu ryngwladol bellach fel y bo'n berthnasol.

d. Rheoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) 1986 (C & U).

e. Pob agwedd ar reoliadau cerbydau Prydeinig ac Ewropeaidd a chael 'cymeradwyaeth math' i ofynion **categori M1** Cyfarwyddeb Cymeradwyaeth Math Cyfan y Gymuned Ewropeaidd 2007/46/EC fel y'i diwygiwyd.
http://www.dft.gov.uk/vca/vehicletype/index.asp

f. Yn absenoldeb Cymeradwyaeth Math Cyfan y Gymuned Ewropeaidd, neu os yw cerbyd wedi'i addasu mewn unrhyw ffordd ers ei weithgynhyrchu, gellir ystyried cerbydau ar gyfer trwyddedu sydd â:

i. Cymeradwyaeth Math ar gyfer Cerbydau Teithwyr | Asiantaeth Ardystio Cerbydau neu
ii. Canllaw Cynllun Cymeradwyaeth Cerbydau Unigol

**Addasiadau/Offer Ychwanegol**

Ni chaniateir gwneud unrhyw addasiadau i'r cerbyd na gosod offer ychwanegol heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr awdurdod trwyddedu. Rhaid i gais ysgrifenedig sy'n esbonio natur lawn yr addasiad neu'r offer gael ei gyd-fynd â gwybodaeth briodol a chadarnhad gan weithgynhyrchwyr y cerbyd na fydd yr addasiad/offer yn peryglu diogelwch a manyleb y cerbyd.

**Amodau Trwydded Cerbyd**
Mae pŵer i'r awdurdod trwyddedu osod amodau o'r fath y mae'n ystyried eu bod yn rhesymol angenrheidiol mewn perthynas â rhoi trwydded cerbyd hacni neu drwydded cerbyd hurio preifat.

Manylir ar amodau'r drwydded mewn perthynas â cherbydau hacni a cherbydau hurio preifat yma:-

**Amodau Cerbydau Hacni** -

**Amodau Trwydded Cerbyd Hurio Preifat -**

### Hyd y Drwydded

Bydd y drwydded Cerbyd yn parhau i fod mewn grym am uchafswm o flwyddyn. Dyddiad dod i ben y Drwydded fydd diwrnod olaf y mis cyn y mis cyhoeddi.

### Oedran Cerbyd

Rhaid i gerbyd a gyflwynir ar gyfer prawf am y tro cyntaf o drwyddedu fod o dan 5 oed (o'r dyddiad cofrestru cyntaf) neu'n llai nag 8 oed (o'r dyddiad cofrestru cyntaf) os yw'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

### Archwiliadau Cerbydau

Mae'r awdurdod trwyddedu yn cynnal archwiliadau cerbydau ar bob cerbyd fel rhan o'r broses ymgeisio yn unol â Safonau Archwilio Cenedlaethol Cerbydau Hacni/Cerbydau Hurio Preifat. Yn ogystal, gellir galw cerbydau ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y drwydded i gael gwiriad gweledol er mwyn sicrhau:

- bod y cerbyd mewn cyflwr glân a thaclus ac yn cario pecyn cymorth cyntaf addas,
- gwirio capasiti seddi (ar y cyd â'r wybodaeth a gynhwysir ar y ddogfen gofrestru cerbyd V5),
- arwyddion - tablau prisiau, arwyddion to, arwyddion dim ysmygu yn cydymffurfio,
- gwiriadau sylfaenol ar deiars, goleuadau a gwregysau diogelwch.

### Cerbydau wedi'u diddymu at ddibenion yswiriant.

Ni fydd y Cyngor yn trwyddedu unrhyw gerbyd i'w ddefnyddio fel cerbyd hacni neu hurio preifat os yw wedi'i raddio fel Categori A, Categori B.

Gellir trwyddedu cerbydau sydd wedi'u graddio fel cerbyd Categori S wedi'i arbed (diddymu) a Chategori N wedi'i ddiddymu gan yswiriant fel cerbyd hacni neu hurio preifat ar yr amod bod yr ymgeisydd neu'r perchennog wedi darparu adroddiad peiriannydd priodol (wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Trwyddedu) sy'n gwirio safon yr atgyweiriadau.

### Polisi Defnydd Arfaethedig

Mae'n gwbl gyfreithlon i gerbyd hacni sydd wedi'i drwyddedu gan un awdurdod ymgymryd â gwaith hurio wedi'i archebu ymlaen llaw (hurio preifat) y tu allan i ardal yr awdurdod. Mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle mae nifer sylweddol o gerbydau

hacni wedi'u trwyddedu gan awdurdod mewn rhai achosion yn ymgymryd â gwaith hurio preifat yn gyfan gwbl y tu allan i ardal y Cyngor hwnnw. Er nad yw'r sefyllfa bresennol yn anghyfreithlon, nid yw'n ddelfrydol o safbwynt gorfodi i gerbydau fod yn gweithredu yn bennaf y tu allan i ardal yr awdurdod lleol lle maent wedi'u trwyddedu. Mae hefyd yn anodd iawn monitro cerbydau yn hawdd os nad ydynt yn gweithredu yn eu hardal a gallai hyn arwain at broblemau diogelwch enfawr. Rhaid i'r Awdurdod fod yn fodlon cyn i drwydded cerbyd hacni gael ei chyflwyno y bydd y cerbyd hacni yn gweithredu o fewn y Sir ac wedi mabwysiadu polisi defnydd arfaethedig sy'n atodedig Polisi Defnydd Arfaethedig Trwydded Cerbyd HacniPan amheuir bod Cerbyd Hacni trwyddedig o Sir Gaerfyrddin yn cael ei weithredu'n sylweddol y tu allan i Sir Gaerfyrddin, yna bydd yn ofynnol i berchennog y cerbyd gyflwyno cofnodion o'r teithiau a wnaed yn y cerbyd hwnnw dros gyfnod penodol o amser a gellir cyfeirio'r drwydded at is-bwyllgor trwyddedu tacsis i ystyried dirymu'r drwydded.

**Yswiriant**

Mae angen tystysgrifau yswiriant yn unol â'r gofynion canlynol:

- Rhaid i'r cerbyd fod â thystysgrif yswiriant ddilys ar gyfer hurio cyhoeddus a thâl mewn perthynas â thacsis, a hurio preifat a thâl mewn perthynas â cherbydau hurio preifat.
- Rhaid i dystysgrifau yswiriant neu nodiadau diogelu a gyflwynir i gwmpasu "unrhyw gerbyd" neu "unrhyw yrrwr" gynnwys atodlen sy'n dangos yr holl gerbydau a gyrwyr sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r yswiriant fel y manylir yn y dystysgrif yswiriant.
- Pan ddarperir nodyn diogelu yswiriant, rhaid cyflwyno tystysgrif yswiriant llawn i'r awdurdod trwyddedu cyn gynted â phosibl.
- Mewn perthynas â cherbyd trwyddedig, os bydd perchennog yn methu â chyflwyno tystysgrif yswiriant ddilys i'r Cyngor fel sy'n ofynnol (oni bai ei fod yn cael ei oedi neu ei atal gan reswm digonol a dderbynnir ac y cytunwyd arno gan yr awdurdod trwyddedu), gall yr awdurdod trwyddedu atal y drwydded a gofyn i berchennog y cerbyd hacni / hurio preifat hwnnw ddychwelyd yr holl blatiau i'r awdurdod trwyddedu yn amodol ar unrhyw gyfnod apelio.

**Tystysgrif Cofrestru V5**

Rhaid cyflwyno tystysgrif gofrestru V5 lawn a phrawf prynu ar ôl Caniatáu/Trosglwyddo trwydded cerbyd.

**Riportio Damweiniau**

Yn unol ag Adran 50(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, rhaid i unrhyw ddamwain i gerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat sy'n achosi difrod sy'n effeithio'n sylweddol ar:

(i) diogelwch, perfformiad neu ymddangosiad y cerbyd, neu

(ii) cysur neu gyfleustra y teithwyr,

gael ei riportio i'r awdurdod trwyddedu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ac mewn unrhyw achos o fewn saith deg dau (72) awr i'r digwyddiad gan ddefnyddio'r Ffurflen Rhoi Gwybod am Ddamweiniau.

Yn dilyn damwain neu ddifrod i gerbyd trwyddedig, os yw'n fwriad gan y perchennog neu'r gweithredwr i barhau â defnydd trwyddedig oherwydd bod y cerbyd yn cael ei ystyried yn addas i'w ddefnyddio'n barhaus, rhaid cytuno ar yr amserlen ar gyfer atgyweiriadau cosmetig gyda Swyddog awdurdodedig yr awdurdod trwyddedu.

Caiff yr awdurdod trwyddedu atal y defnydd o gerbyd trwyddedig nes ei fod wedi'i atgyweirio'n briodol ac yn cydymffurfio â safon MOT neu adroddiad peiriannydd priodol (a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Trwyddedu) sy'n gwirio bod safon yr atgyweiriadau wedi'i dderbyn.

Gellir disodli cerbyd trwyddedig sydd wedi dioddef difrod damweiniol mawr neu sydd angen gwaith atgyweirio mecanyddol sylweddol gan gerbyd hurio dros dro, ar yr amod:

(i) bod y difrod i'r cerbyd neu'r ddiffyg o ran y cerbyd wedi'i riportio i'r awdurdod trwyddedu,

(ii) y gwneir cais yn y modd rhagnodedig am drwydded cerbyd newydd,

**Prisiau**

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn pennu'r prisiau uchaf y gellir eu codi ar gyfer teithiau cerbydau hacni sy'n digwydd o fewn ardal yr awdurdod lleol. Mae'r tabl cyfredol o brisiau yn cael ei fanylu yma table-of-fares-2023.pdf . Rhaid arddangos copi ym mhob cerbyd.

Mae'n drosedd codi mwy na'r pris ar y mesurydd ar gyfer teithiau sy'n dechrau ac yn gorffen yn ardal yr awdurdod lleol. Gellir codi ffi is na'r pris ar y mesurydd, ond ni ellir byth codi ffi mwy na'r pris ar y mesurydd.

Gall gyrwyr sy'n ymgymryd â theithiau sy'n dechrau neu'n gorffen y tu allan i ffin yr awdurdod lleol gytuno ar bris gyda'r teithiwr cyn dechrau'r daith neu gallant ddewis defnyddio'r tacsimedr.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn adolygu'r tabl prisiau o bryd i'w gilydd, fel arfer lle mae awydd sylweddol o fewn y maes i wneud hynny. Bydd unrhyw newidiadau yn destun proses ymgynghori gyhoeddus.

Gall cynrychiolwyr y maes cerbydau hacni wneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu am ystyried newid i'r tabl prisiau.

Nid yw'r awdurdod lleol yn gallu gosod prisiau ar gyfer cerbydau hurio preifat. Yr arfer gorau yw cytuno ar y pris cyn dechrau'r daith gyda'r Gweithredwr Hurio Preifat.

Rhaid i yrwyr, os gofynnir amdano gan y teithiwr, ddarparu derbynebau ysgrifenedig ar gyfer yr holl brisiau a dalwyd. Mae'n rhaid i dderbynneb gynnwys y wybodaeth ganlynol: -

- pris a ddangosir ac a gyfrifir gan y mesurydd ynghyd â thaliadau cymeradwy eraill yn unol â'r siart brisiau
- Rhif trwydded y cerbyd

Nid oes angen cyflwyno derbynneb ar bapur. Derbynnir, lle mae technoleg yn caniatáu, bod llawer o deithwyr yn hapus i dderbynneb gael ei anfon trwy neges destun neu e-bost. Fodd bynnag, dylai'r modd i allu argraffu derbynneb fod ar gael bob amser.

**Tacsimedrau**

Mae i 'Tacsimedr' yr un ystyr ag yn Adran 80 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, sef:

*'…any device for calculating the fare to be charged in respect of any journey in a hackney carriage or private hire vehicle by reference to the distance travelled or time elapsed since the start of the journey, or a combination of both;'*

Mae'n **rhaid** gosod tacsimedrau ym mhob tacsi a **gellir** eu gosod mewn cerbydau hurio preifat.

Pan fo tacsimedr wedi'i osod, rhaid iddo fod:

- Yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Offerynnau Mesur (Tacsimedrau) 2006 ac wedi'u hardystio gan gorff hysbysedig yn unol â'r Gyfarwyddeb Offerynnau Mesur (MID) (2004/22/EC), yn benodol Atodiad 007.
- Yn achos tacsis sydd â dyfais, bydd defnyddio/gweithredu'r ddyfais yn sbarduno'r tacsimedr ac yn achosi i'r gair 'HIRED' ymddangos ar wyneb y tacsimedr. Rhaid gallu cloi dyfais o'r fath fel nad yw peirianwaith y tacsimedr ar waith ac nad oes unrhyw bris yn cael ei gofnodi ar wyneb y tacsimedr.
- Yn achos tacsis, wedi'u graddnodi yn erbyn safon briodol i sicrhau nad yw'r tariff a godir yn fwy na'r uchafswm prisiau a bennir gan yr awdurdod trwyddedu.
- Dan reolaeth calendr.
- Wedi'i osod ar y cerbyd gyda seliau/offer priodol i atal unrhyw berson rhag ymyrryd â'r mesurydd ac eithrio trwy dorri, difrodi neu ddadleoli'r seliau/offer yn barhaol.
- Cael y gair 'FARE' wedi'i argraffu ar wyneb y mesurydd mewn llythrennau plaen fel ei fod yn berthnasol yn glir i'r pris a gofnodwyd arno; ac
- Wedi'i ategu gan dystysgrif/adroddiad cydymffurfiaeth a gyhoeddwyd gan dacsimedr wedi'i osod a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol (dim ond tystysgrif sydd wedi'i chyhoeddi o fewn y 10 diwrnod gwaith blaenorol y bydd yr awdurdod trwyddedu yn ei derbyn).

- Mewn perthynas â thacsi, os bydd perchennog yn methu â chyflwyno tystysgrif/adroddiad cydymffurfio dilys i'r awdurdod trwyddedu (oni bai ei fod yn cael ei oedi neu ei atal gan reswm digonol a dderbynnir ac y cytunwyd arno gan yr awdurdod trwyddedu), gall yr awdurdod trwyddedu atal y drwydded a gofyn i berchennog y tacsi hwnnw ddychwelyd yr holl blatiau i'r awdurdod trwyddedu yn ddarostyngedig i unrhyw gyfnod apêl.

**Systemau Rheoli a Dosbarthu / Mesuryddion GPS**

Mae 'mesuryddion' GPS yn defnyddio systemau lleoli byd-eang (GPS) yn hytrach na dull 'pwls' a ddefnyddir gan dacsimedrau safonol i gyfrifo pellter. Ar hyn o bryd nid yw mesuryddion GPS yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Offerynnau Mesur (MID) (2004/22/EC) ar dacsimedrau, felly ni ellir eu defnyddio fel dewis arall i dacsimedr pwls traddodiadol mewn tacsis trwyddedig.

Caniateir defnyddio mesuryddion GPS, a systemau dosbarthu/rheoli mewn tacsis a cherbydau hurio preifat, fodd bynnag, mewn tacsis ni ddylai ddisodli'r tacsimedr cymeradwy ac ni ddylai rwystro neu dynnu sylw oddi wrth sgrin arddangos y tacsimedr. Rhaid iddo fod yn glir i deithwyr bod y pris maen nhw'n ei dalu yn cael ei arddangos ar y tacsimedr cymeradwy. Er mwyn osgoi unrhyw ddryswch i deithwyr, rhaid cuddio unrhyw bris a ddangosir ar y system GPS o olwg y teithiwr.

Rhaid gosod unrhyw System Leoli Fyd-eang (GPS) yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

**Camerâu Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)**

Mae diogelwch i yrwyr a theithwyr yn hollbwysig a gall camerâu teledu cylch cyfyng cerbydau mewnol fod yn ataliad gwerthfawr.

Nid yw'r awdurdod trwyddedu hwn wedi gorchymyn defnyddio teledu cylch cyfyng mewn cerbydau trwyddedig, fodd bynnag, gall gydnabod y manteision i yrrwr a theithwyr. Efallai y bydd ymgynghoriad yn y dyfodol ar y defnydd gorfodol o deledu cylch cyfyng yn cael ei ystyried, ond yn y cyfamser bydd yr awdurdod trwyddedu yn caniatáu defnyddio systemau teledu cylch cyfyng ar sail wirfoddol.

Dylai perchnogion sy'n penderfynu gosod systemau teledu cylch cyfyng yn eu cerbydau sicrhau cydymffurfiaeth lawn â manylion polisi teledu cylch cyfyng Llywodraeth Cymru **Tacsis a cherbydau hurio preifat: manylebau ac amodau Teledu Cylch Cyfyng | LLYW.CYMRU**

**Systemau Fideo Pwynt Gwrthdaro (VPIS)**

Mae'r awdurdod trwyddedu yn caniatáu defnyddio systemau VPIS mewn cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Dylai perchennog unrhyw gerbyd sydd â system VPIS gydymffurfio ag amodau Llywodraeth Cymru a nodir yn **Tacsis a cherbydau hurio preifat: polisi camerâu dangosfwrdd | LLYW. CYMRU**

**Eiddo Coll**

Rhaid i yrrwr y cerbyd wirio'r cerbyd yn ofalus ar ôl terfynu pob cyfnod hurio, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny, am unrhyw eiddo personol sydd wedi'i adael yn y cerbyd.

O fewn 48 awr o ddod o hyd i eiddo coll, rhaid i'r gyrrwr drosglwyddo'r eitem(au) i orsaf heddlu yn yr ardal a chael derbynneb amdano.

**Lliwiau ac Arwyddion**

Mae'n hanfodol y dylai'r cyhoedd allu adnabod a deall y gwahaniaeth rhwng cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat.

Mae'n ofynnol i gerbydau hacni a cherbydau hurio preifat arddangos y plât trwydded allanol, wedi'i osod yn ddiogel yng nghefn y cerbyd a sticeri drws wedi'u diogelu'n barhaol i bob un o'r drysau ffrynt. Ni chaniateir gosodiad dros dro.

Rhaid i gerbydau hacni fod ag arwydd to sy'n dwyn y gair 'TAXI' ar un ochr a'r gair "TACSI" ar y llall ac mae'n rhaid ei oleuo ar bob adeg pan fo'r cerbyd ar gael i'w hurio. Bydd yr arwydd yn un Aerodec 18 modfedd.

**Hysbysebu**

Ni chaniateir arddangos unrhyw arwyddion na hysbysebion ar gerbydau trwyddedig heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr awdurdod trwyddedu.

Rhaid i bob hysbyseb gydymffurfio â gofynion y Cyngor Safonau Hysbysebu ym mhob mater sy'n ymwneud â chwaeth da, o ran cynnwys ac ymddangosiad ac ni ddylent ymwneud â materion sy'n ymwneud â thybaco, gamblo, alcohol, gwleidyddiaeth, crefydd, materion o natur rywiol, neu unrhyw gynnwys arall sy'n debygol o achosi tramgwydd. **Canllawiau ar Hysbysebu**

**Taliadau â Cherdyn**

Mae'n bosibl bod cerbydau trwyddedig yn cynnwys dyfais talu â cherdyn credyd neu ddebyd. Rhaid i'r ddyfais fod â'r cyfleuster i gynhyrchu derbynneb printiedig.

Pan fo cerbyd wedi'i ffitio â dyfais talu â cherdyn, rhaid arddangos dau arwydd dwyochrog, naill ai'n nodi logos cwmnïau cardiau neu arwydd dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) sy'n dweud 'Mae'r cerbyd trwyddedig hwn bellach yn derbyn taliadau â cherdyn credyd a debyd gan gynnwys taliadau digyswllt'

Rhaid i'r arwydd gael ei leoli'n fewnol ar ben y ddwy ffenestr deithiwr.

Os bydd problem yn digwydd gyda thaliad cerdyn, dylai'r gyrrwr ddilyn y cyngor hwn:
- Gofyn i'r teithiwr roi cynnig ar y cerdyn talu eto
- Os yw'r broblem yn parhau, gofyn i'r teithiwr a oes ganddynt gerdyn arall neu arian parod
- Cynnig mynd â'r teithiwr i'r peiriant ATM agosaf (peiriant arian parod)
- Os yw'r teithiwr yn gwrthod talu'r pris, ystyried cysylltu â'r heddlu.

Dylai gyrwyr wirio bod eu taliad cerdyn yn gweithio cyn iddynt ddechrau gwaith, gan gynnwys sicrhau ei fod yn gallu argraffu derbynebau.

**Hygyrchedd**

Rhaid i gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn dynodedig (WAVs) allu hwyluso cludo pobl anabl a darparu ar gyfer person anabl mewn cadair olwyn 'gyfeirio'* yn rhan y cerbyd i deithwyr.
*Diffinnir cadair olwyn gyfeirio yn Atodlen 1 o Reoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus 2000;
**http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1970/schedule/1/made**

Mae adran 167 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu i Awdurdodau Lleol gynnal rhestr ddynodedig o gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae'r awdurdod trwyddedu hwn wedi gwneud y penderfyniad i gynnal rhestr o'r fath. Sydd wedi'i chyhoeddi ar wefan yr awdurdod trwyddedu yn Trwyddedau Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat - Cerbydau sy'n Hygyrch i Gadeiriau Olwyn - Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae gan berchnogion gyfrifoldeb i sicrhau bod unrhyw yrrwr trwyddedig sy'n gyrru un o'u cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn yn ymwybodol o'u dyletswyddau mewn perthynas â chario pobl anabl mewn cadeiriau olwyn wrth yrru cerbyd trwyddedig sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

Rhaid i berchennog cerbyd trwyddedig sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn ddangos i bob gyrrwr y cerbyd sut i gynorthwyo teithiwr mewn cadair olwyn i mewn ac allan o'r cerbyd a diogelu'r gadair olwyn yn gywir yn y cerbyd. Bydd hyn yn cynnwys dangos i'r gyrrwr sut i ddefnyddio'r ramp(iau) a sut i ddefnyddio ac addasu'r gwregysau. Rhaid i'r perchennog gadw cofnod o'r arddangosiad hwn a chynnwys y canlynol:

a. Dyddiad yr arddangosiad
b. Enw a rhif trwydded y gyrrwr
c. Cydnabyddiaeth wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan y gyrrwr bod yr arddangosiad wedi digwydd a'i fod/bod yn deall yn glir sut i gludo teithiwr mewn cadair olwyn i'r cerbyd.

Rhaid i'r perchennog gadw'r cofnod hwn cyhyd ag y mae'r gyrrwr yn defnyddio'r cerbyd. Os yw'r gyrrwr yn rhentu'r cerbyd eto yn y dyfodol, rhaid i'r perchennog ailadrodd yr arddangosiad a'i gofnodi.

Os yw'r perchennog hefyd yn yrrwr trwyddedig y cerbyd, rhaid i'r perchennog gofnodi cydnabyddiaeth wedi'i lofnodi i ardystio y gall gyflawni cyfarwyddiadau gwneuthurwr y cerbyd ar sut i gludo teithiwr cadair olwyn yn ddiogel i mewn ac allan o'r cerbyd a sut i ddiogelu'r gadair olwyn.

**Hurio Gweithredol (Hurio Preifat yn Unig)**

Gall cerbydau a ddefnyddir ar gyfer hurio gweithredol yn unig gael eu heithrio gan nifer o amodau safonol megis arddangos lliwiau a phlât trwydded allanol.

Bydd cerbyd yn cael ei ystyried ar gyfer yr eithriad dim ond os yw'n ymgymryd â gwasanaeth gweithredol ar gyfer contractau corfforaethol neu fusnes, ni fyddai teithiau i ddiwrnodau rasio/proms yn cael eu hystyried fel defnydd gweithredol ac felly yn ddarostyngedig i amodau cerbydau hurio preifat safonol.

Mae'r math o waith a ystyrir yn 'hurio gweithredol' yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

- Contractau busnes i fusnes unigryw, h.y. i gludo gweithwyr a chleientiaid ar deithiau sy'n gysylltiedig â busnes o dan gontract ysgrifenedig i gwmni neu berson
- Archebion ar gyfer cleientiaid penodol (er enghraifft gwleidyddion ac enwogion) na fyddai, am resymau diogelwch neu ddiogelwch personol, eisiau i'r cerbyd gael ei adnabod fel cerbyd hurio preifat.
- Archebion yn arbennig ar gyfer trosglwyddo i / o feysydd awyr / porthladdoedd

Rhaid i'r tu mewn a'r tu allan i'r cerbyd fod o'r ansawdd uchaf o ran dyluniad a'r defnydd o ddeunyddiau sydd ar gael ac mewn cyflwr eithriadol. Rhaid i gyflwr cerbydau sydd i'w hystyried yn 'weithredol' fod y fanyleb uchaf o fath penodol o gerbyd. Mae ystyriaethau perthnasol ynghylch a yw cerbyd yn bodloni safon weithredol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, cost, enw da, manyleb, ymddangosiad, canfyddiad, lefelau cysur uwch a manyleb seddau, e.e. a yw'r cerbyd yn cynnig lle ychwanegol fesul teithiwr o'i gymharu â cherbydau safonol.

Rhaid i unrhyw berchennog sy'n dymuno trwyddedu cerbyd ar gyfer hurio gweithredol wneud cais i'r awdurdod trwyddedu gan ddarparu cadarnhad ysgrifenedig gan eu gweithredwr hurio preifat y bydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hurio gweithredol yn unig.

Rhaid cario hysbysiad ysgrifenedig gan yr awdurdod trwyddedu sy'n nodi pa amodau trwydded cerbyd sydd wedi'u heithrio bob amser yn y cerbyd.

Mae'n ofynnol i gerbydau sydd wedi'u trwyddedu ar gyfer hurio gweithredol gael eu gyrru gan yrrwr hurio preifat trwyddedig.

**Cerbydau Hurio Preifat Difyrrwch/Digwyddiadau Arbennig gan gynnwys Limwsîns**

Mae cerbydau hurio preifat difyrrwch wedi'u trwyddedu yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Ni ddylai cerbydau hurio preifat difyrrwch fod ag ymddangosiad cerbyd hacni a rhaid iddynt gael eu dylunio i gario 8 teithiwr neu lai.

Dylai perchnogion sy'n dymuno trwyddedu limwsîns ystyried 'Canllawiau ar gyfer Gweithredwyr Limwsîns Hir' (2011) **VOSA**
**https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/147836/Guidance_for_Operators_of_Stretch_Limousines__2_.pdf**

Manylir ar y fanyleb a'r amodau sy'n ymwneud â limwsîns yn
***Amodau Trwyddedu Limwsîns –***

**Darpariaethau ychwanegol ar gyfer Cerbydau Hacni yn unig:**

**Safleoedd Tacsi (cyfeirir atynt yn gyfreithiol fel safleoedd cerbydau hacni)**

Nid yw'n ofyniad gorfodol bod yr awdurdod lleol yn darparu safleoedd ar gyfer y maes cerbydau hacni. Pan ddarperir safleoedd, bydd defnydd a lleoliad y safleoedd hyn yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd gan yr awdurdod lleol (Priffyrdd).

Bydd unrhyw newidiadau i safleoedd presennol neu ychwanegu safleoedd newydd yn destun ymgynghoriad. Croesewir sylwadau ac awgrymiadau ynglŷn â lleoliad safleoedd newydd.

Darperir safleoedd tacsi ar gyfer cerbydau hacni yn unig. Ni chaniateir i gerbydau hurio preifat aros, codi neu ollwng mewn safleoedd tacsis dynodedig.

## Gweithredwyr Cerbydau Hurio Preifat

**Proses Gwneud Cais**

Bydd yr holl geisiadau yn cael eu penderfynu ar eu rhinweddau eu hunain. Mae'r weithdrefn ymgeisio ar gyfer cael trwydded gweithredwr cerbydau hurio preifat wedi'i manylu yn Trwydded gweithredwr cerbyd hurio preifat - Cyngor Sir Caerfyrddin

**Hyd y Drwydded**

Bydd trwyddedau gweithredu yn cael eu rhoi am gyfnod o hyd at 5 mlynedd, fodd bynnag, mae gan yr awdurdod trwyddedu y disgresiwn i gyhoeddi trwyddedau am gyfnod byrrach, os yw'n ystyried bod hyn yn briodol o dan amgylchiadau'r achos.

**Cyfrifoldebau ac Addasrwydd / Priodoldeb y Gweithredwr**

Mae'r gweithredwr yn gyfrifol am yr holl bersonau (a cherbydau) sy'n cael eu cyflogi, eu contractio neu a ddefnyddir fel arall fel rhan o'i fusnes. I'r perwyl hwnnw, rhaid i'r gweithredwr gynnal gwiriadau digonol i fodloni ei hun mai dim ond gyrwyr, staff gweinyddol a cherbydau addas sy'n cael eu defnyddio (ac yn parhau i gael eu defnyddio) fel rhan o'i fusnes. Gall methiant gweithredwr i sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal gwestiynu ffitrwydd a phriodoldeb y gweithredwr. Yn ogystal, gall methiant i gymryd camau priodol mewn perthynas â gyrwyr sy'n torri amodau trwydded yn barhaus hefyd fod yn niweidiol i ffitrwydd a phriodoldeb parhaus y gweithredwr.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o amgylchiadau a allai effeithio ar ffitrwydd a phriodoldeb gweithredwr Hurio Preifat:

- Gyrwyr trwyddedig neu berchnogion cerbydau sy'n parhau (naill ai'n unigol neu fel grŵp) i dorri amodau eu trwydded wrth weithio i / o dan gyfarwyddyd gweithredwr penodol.
- Cerbydau sy'n cael eu gweithredu sydd mewn cyflwr anaddas.
- Methiant gan y gweithredwr i fynd i'r afael â phryderon boddhaol mewn perthynas â gyrwyr trwyddedig / perchnogion cerbydau (gan gynnwys materion sy'n ymwneud â diogelu plant / oedolion).
- Cyflogi staff ategol lle nad yw gwiriad DBS sylfaenol wedi'i gwblhau ar gyfer yr unigolyn, neu y gall ei ganlyniadau beri risg i'r cyhoedd.
- Colli/camddefnyddio data personol

Mae'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl i weithredwyr trwyddedig gefnogi ei nodau i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion a mynd i'r afael â nhw. Rhaid i weithredwyr aros yn wyliadwrus i'r materion hyn a materion tebyg, bydd methu â gwneud hynny yn cwestiynu ffitrwydd a phriodoldeb y gweithredwr.

Wrth asesu addasrwydd ymgeisydd i ddal trwydded gweithredwr hurio preifat, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried hanes troseddol yr ymgeisydd yn ei gyfanrwydd, ynghyd â'r holl dystiolaeth a gwybodaeth berthnasol arall gan gynnwys ei hanes (e.e. cwynion a sylwadau cadarnhaol gan y cyhoedd, cydymffurfiaeth ag amodau'r drwydded a pharodrwydd i gydweithredu â swyddogion trwyddedu) tra'n dal trwydded gan yr Awdurdod Trwyddedu neu unrhyw awdurdod arall. Bydd sylw arbennig yn cael ei roi i batrymau ymddygiad, waeth beth fo'r raddfa amser y maent wedi digwydd, o ran tramgwyddau troseddol profedig ac ymddygiad arall a allai nodi y gallai diogelwch a lles y cyhoedd fod mewn perygl gan yr ymgeisydd.

Rhaid cydnabod hefyd y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried yr holl hanes ac ymddygiad troseddol, p'un a ddigwyddodd yr hanes neu'r ymddygiad penodol tra oedd yr ymgeisydd yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith trwyddedig cerbyd hacni neu hurio preifat ar y pryd, neu p'un a ddigwyddodd hynny yn ystod amser personol yr ymgeisydd. Mae'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn bod person neu unigolyn sydd â thueddiad i gyflawni troseddau a/neu ddangos ymddygiad annerbyniol tra nad yw'n cymryd rhan mewn gwaith cerbyd hacni neu hurio preifat yr un mor ddifrifol â throseddau a/neu ymddygiad annerbyniol a gyflawnwyd wrth gymryd rhan mewn gwaith cerbyd hacni neu waith hurio preifat.

Er mwyn helpu i asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried **Canllawiau ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau ym maes cerbydau hacni a hurio preifat**

## Gwiriad DBS

Rhaid i bob ymgeisydd am grant neu adnewyddu trwydded Gweithredwr Hurio Preifat gyflwyno datgeliad sylfaenol (dyddiedig o fewn mis i'r cais) y gellir ei gael gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn bodloni'r awdurdod ei fod yn berson 'addas a phriodol'. Yn achos ceisiadau gan gwmni neu sefydliad, rhaid i bob cyfarwyddwr y

cwmni/sefydliad ddarparu datgeliad sylfaenol. Bydd cost y gwiriadau hyn yn cael ei dalu gan yr ymgeisydd/deiliad y drwydded.

Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr sydd eisoes yn dal trwydded cerbyd hacni neu drwydded cerbyd hurio preifat gyda'r awdurdod hwn ddarparu'r datgeliad sylfaenol fel rhan o'u cais am drwydded gweithredwr cerbyd hurio preifat.

Ni fydd troseddau gyrru fel arfer yn cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad ar gyfer deiliaid trwydded gweithredwr hurio preifat. Ni fydd gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn gwiriad DBS manwl na fyddai'n cael ei datgelu ar wiriad sylfaenol yn cael ei hystyried fel rhan o'r asesiad ar gyfer trwydded gweithredwr hurio preifat.

**Gwiriad o Gofnodion Troseddol Tramor**

Bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu weld tystiolaeth o wiriad cofnod troseddol o'r wlad/gwledydd yr ymwelwyd â nhw sy'n cwmpasu'r cyfnod pan oedd yr ymgeisydd dramor yn achos pob ymgeisydd am drwydded gweithredwr cerbyd hurio preifat sydd wedi treulio 6 mis neu fwy yn olynol y tu allan i'r Deyrnas Unedig ers ei ben-blwydd yn 18 oed.

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd dalu unrhyw gostau ariannol gwiriadau o'r fath.

Ar gyfer dinasyddion yr UE (gan gynnwys dinasyddion y DU) dylai gwiriadau addas fod ar gael. Ar gyfer y gwledydd hynny lle nad oes gwiriadau ar gael ar eu cyfer, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gofyn am dystysgrif ymddygiad da wedi'i dilysu gan y llysgenhadaeth berthnasol. Rhaid i'r dystysgrif gael ei dilysu, ei chyfieithu a'i selio gan y Llysgenhadaeth neu'r Uchel Gomisiwn. Mae gwybodaeth am dystysgrifau ymddygiad da neu ddogfennau tebyg o nifer o wledydd ar gael gan: https://www.gov.uk/government/publications/criminal-records-checks-for-overseas-applicants

Os nad yw ymgeisydd yn gallu cael tystysgrif ymddygiad da, ni ddylech symud ymlaen â'ch cais a dylech gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu i gael rhagor o wybodaeth.

Rhaid i wiriadau hanes troseddol tramor fod wedi'u cael o fewn y cyfnod o 6 mis cyn y cais.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gofyn am unrhyw Dystysgrif Ymddygiad Da a allai fod gan yr ymgeisydd waeth beth fo oedran y ddogfen.

Bydd yn ofynnol i dystysgrifau Ymddygiad Da sydd mewn iaith heblaw Saesneg gael eu cyfieithu i'r Saesneg ar draul yr ymgeisydd gan wasanaeth cyfieithu annibynnol a rhaid gwirio'r cyfieithiad.

**Amod y Drwydded**

Mae gan yr awdurdod trwyddedu y pŵer i osod amodau o'r fath ar drwydded gweithredwr cerbyd hurio preifat fel y mae'n ystyried yn rhesymol, yn angenrheidiol ac yn gymesur. Manylir ar amodau'r drwydded yma Trwydded gweithredwr cerbyd hurio preifat - Cyngor Sir Caerfyrddin

## Cydymffurfiaeth a Gorfodi Cyffredinol

Prif ddiben trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yw diogelu'r cyhoedd a hyrwyddo diogelwch y cyhoedd.

Cydnabyddir bod gweithgarwch gorfodi wedi'i gyfarwyddo'n dda gan yr Awdurdod Trwyddedu o fudd nid yn unig i'r cyhoedd ond hefyd i'r aelodau sy'n gyfrifol am y maes cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Wrth fynd ar drywydd ei amcan i annog busnesau cerbydau hacni a hurio preifat cyfrifol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gweithredu cyfundrefn ddisgyblu a gorfodi gymesur. Er mwyn cydbwyso hyrwyddo diogelwch y cyhoedd â'r angen i atal ymyrraeth ddiangen ym musnes deiliad y drwydded, dim ond lle mae'n angenrheidiol ac yn gymesur i wneud hynny y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymyrryd. Pan fo'r diffygion mor wael fel bod angen gwahardd y defnydd o'r cerbyd ar unwaith, mae'n anochel y bydd hyn yn ymyrryd ar fywoliaeth.

Mae asesiadau cydymffurfio i sicrhau bod deiliaid trwydded yn parhau i fod yn 'addas a phriodol'. Gall yr Awdurdod Trwyddedu ddefnyddio amrywiaeth o offer a phwerau i nodi diffyg cydymffurfiaeth, gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, arolygiadau rhagweithiol ac adweithiol, ymarferion 'siopwr dirgel', ymarferion wedi'u rhaglennu gyda phartneriaid perthnasol, gweithrediadau gorfodi wedi'u targedu, ymchwilio i gwynion/ceisiadau am wasanaethau.

Bydd camau gorfodi yn gymesur, yn gyson ac yn rhesymol, tra'n sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu diogelu. Gall penderfynu ar y dull gorfodi ystyried y canlynol:

- Difrifoldeb y drosedd
- Hanes cydymffurfio blaenorol y troseddwr
- Canlyniad y diffyg cydymffurfio
- Y risg i'r cyhoedd
- Y tebygolrwydd o beidio â chydymffurfio dro ar ôl tro
- Effeithiolrwydd dulliau cydymffurfio/gorfodi eraill

**Hunan-adrodd Deiliad y Drwydded**

Mae'n ofynnol i bob deiliad trwydded roi gwybod i'r awdurdod sy'n cyflwyno'r drwydded o fewn 48 awr am unrhyw arestiad a rhyddhau am unrhyw drosedd rywiol, unrhyw drosedd sy'n ymwneud ag anonestrwydd neu drais ac unrhyw drosedd foduro. Rhaid gwneud hysbysiadau pellach i'r awdurdod trwyddedu o fewn 48 awr o unrhyw gyhuddiad ac unrhyw euogfarn. Gallai methu â datgelu arestiad y mae'r awdurdod sy'n cyflwyno'r drwydded yn cael gwybod amdano yn ddiweddarach gael ei ystyried fel ymddygiad sy'n cwestiynu gonestrwydd ac felly addasrwydd deiliad y drwydded waeth beth yw canlyniad yr honiad cychwynnol.

**Y Weithdrefn Ddisgyblu**

Bydd cwynion a wneir yn erbyn deiliaid trwyddedau gan aelodau o'r cyhoedd, swyddogion yr heddlu, swyddogion y cyngor, neu unrhyw berson perthnasol arall yn cael eu hymchwilio'n llawn gan yr Awdurdod Trwyddedu.

Ar ôl ymchwilio i gŵyn ynglŷn ag ymddygiad deiliad trwydded neu gael gwybod am drosedd, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y sancsiynau disgyblu canlynol:

a. **Dim gweithredu** – Os yw'r gŵyn yn gymharol ddibwys ac nad oes hanes o ymddygiad gwael neu fod yna amgylchiadau lliniarol posibl.
b. **Llythyr rhybudd** - ar gyfer mân gŵynion/troseddau neu gŵynion/troseddau cymedrol neu os oes patrwm o ymddygiad gwael yn amlwg. Gellir cyflwyno llythyr rhybudd lle nad yw difrifoldeb y gŵyn/trosedd yn cyfiawnhau atal neu ddirymu. Bydd llythyr rhybudd yn aros ar ffeil deiliad y drwydded am 2 flynedd (neu gyfnod a bennir yn briodol gan yr Awdurdod Trwyddedu). Nid oes terfyn ar nifer y llythyrau rhybuddio y gall gyrrwr eu derbyn, fodd bynnag, os yw gyrrwr yn derbyn 2 neu fwy o lythyrau rhybuddio o fewn 2 flynedd ar gyfer cwynion tebyg, efallai y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn dymuno ystyried camau mwy difrifol, megis rhybudd ysgrifenedig terfynol neu ataliad.
c. **Rhybudd ysgrifenedig terfynol** – ar gyfer mân gŵynion/troseddau neu gŵynion/troseddau cymedrol lle mae deiliad y drwydded wedi derbyn llythyr(au) rhybudd ynghylch mater tebyg.
d. **Mae'n ofynnol i'r gyrrwr ymgymryd â hyfforddiant pellach**. Gall yr Awdurdod Trwyddedu ddod i'r casgliad y gallai'r gŵyn neu'r adroddiad yn erbyn deiliad y drwydded fod oherwydd diffyg gwybodaeth a gall argymell bod deiliad y drwydded yn cael hyfforddiant pellach i gywiro ymddygiad ac atal camymddwyn pellach.
e. **Erlyniad** – lle mae tystiolaeth glir ac er budd y cyhoedd, gellir erlyn deiliad y drwydded am droseddau o dan y ddeddfwriaeth berthnasol.

f. **Ataliad –** ar gyfer cwynion/troseddau mwy difrifol neu achosion lle mae deiliad y drwydded wedi derbyn rhybudd o'r blaen am gŵyn/trosedd tebyg yn y 2 flynedd ddiwethaf. Bydd hyd yr ataliad yn cael ei bennu fesul achos. Gall ataliad fod yn opsiwn lle nad oes rhybudd blaenorol wedi'i roi os yw'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn bod difrifoldeb y mater yn cyfiawnhau hynny.
g. **Ataliad cerbyd (Hysbysiad Stop)** – gellir atal trwydded cerbyd pan nad yw'r cerbyd yn bodloni amodau'r drwydded neu nad yw'n addas ar gyfer y ffordd. Mae'r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r cerbyd beidio â chael ei ddefnyddio fel cerbyd trwyddedig nes bod y diffyg wedi'i gywiro a'r hysbysiad wedi'i godi gan yr Awdurdod Trwyddedu.
h. **Dirymu** – ar gyfer patrymau ailadroddus o ymddygiad gwael neu ymddygiad lle mae rhybuddion neu ataliad(au) eisoes wedi'u cyflwyno. Ar gyfer materion difrifol lle mae'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn nad yw'r gyrrwr bellach yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.
i. **Ataliad / dirymu ar unwaith** – pan fydd er budd diogelwch y cyhoedd, gall yr Awdurdod Trwyddedu ei gwneud yn ofynnol i'r ataliad / dirymu gael effaith ar unwaith.
j. **Gwrthod adnewyddu trwydded** – fel ar gyfer dirymu uchod.

Mae'r Polisi Cydymffurfio a Gorfodi Diogelu'r Cyhoedd ar gyfer yr Awdurdod Trwyddedu yn ymgorffori ei egwyddorion gorfodi. Mae'r Polisi ar gael ar gais gcttrwyddedutacsi@sirgar.gov.uk

### Apeliadau

Gall unrhyw unigolyn sy'n cael ei dramgwyddo gan ataliad/gwrthod/dirymu trwydded apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Trwyddedu i'r Llys Ynadon lleol o fewn 21 diwrnod i'r penderfyniad. Rhaid cyflwyno hyn i'r Llys yn unol â'r darpariaethau statudol perthnasol. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cynghori'n gryf bod partïon yn ceisio cyngor cyfreithiol annibynnol priodol yn brydlon mewn amgylchiadau o'r fath.

Gellir gwneud apêl bellach i Lys y Goron yn erbyn penderfyniad y Llys Ynadon.

### Gweithio mewn Partneriaeth

Er mwyn gwneud y mwyaf o orfodi a chydymffurfiaeth effeithiol, mae'n aml yn angenrheidiol i'r Awdurdod Trwyddedu weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Gall enghreifftiau o bartneriaethau gynnwys yr heddlu, yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA), Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF), awdurdodau lleol cyfagos, timau diogelu oedolion a phlant.

Nod yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yw gweithio'n agos gyda'r fasnach drwyddedig i barhau i broffesiynoleiddio'r diwydiant a gwella safonau gwasanaeth.

### Ceisiadau a Chwynion Gwasanaeth

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymchwilio i bob cais am wasanaeth a chwynion a wneir yn erbyn deiliaid trwydded, ar yr amod y derbynnir manylion a fydd yn caniatáu

i sefydlu hunaniaeth deiliad y drwydded. Byddai'r manylion yn cynnwys enw deiliad y drwydded, rhif y drwydded, neu rif cofrestru'r cerbyd.

Dylid nodi y gall ymchwiliad i'r gŵyn arwain at ofyn i'r achwynydd ddarparu datganiad tyst ysgrifenedig. Yn ogystal, efallai y bydd yn ofynnol i'r achwynydd ddarparu tystiolaeth yn bersonol mewn Pwyllgor disgyblu neu yn y Llys.

Gellir cymryd datganiadau hefyd gan ddeiliad y drwydded ac unrhyw dystion eraill.

Wrth ddod i benderfyniad ynghylch pa gamau y dylid eu cymryd, os o gwbl, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried yr holl dystiolaeth ac amgylchiadau lliniarol.

Dylid gwneud cwynion mewn perthynas â thrwyddedu tacsis yn ysgrifenedig at **GCTTrwyddeduTacsi@sirgar.gov.uk**

**Gorfodi Trawsffiniol**

Pan ddaw'n amlwg bod naill ai nifer o gerbydau sydd wedi'u trwyddedu gan yr awdurdod hwn yn ymgymryd â'r mwyafrif (h.y. dros 50%) o waith hurio preifat mewn ardal awdurdod lleol arall, neu pan fo'n amlwg bod nifer o gerbydau a drwyddedwyd gan awdurdod lleol arall yn ymgymryd â'r mwyafrif o waith hurio preifat yn yr ardal hon, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ymdrechu i ddatblygu protocolau gorfodi gyda'r awdurdodau lleol hynny.

O dan yr amgylchiadau hyn bydd y protocol canlynol yn cael ei ddilyn:

- Mae pob awdurdod yn cytuno pa lefel o arbenigedd/cymhwyster/sgiliau yw'r lleiafswm ar gyfer cymeradwyo awdurdodiad pob unigolyn.
- Mae pob awdurdod yn sefydlu, trwy eu cynlluniau dirprwyo eu hunain, pa gamau gweithdrefnol sydd angen eu cymryd i awdurdodi'n ddilys (h.y. adroddiad y prif swyddog, is-bwyllgor, neu benderfyniad pwyllgor llawn).
- Mae pob awdurdod yn cytuno ar ffurf a geiriad y 'llythyr awdurdodiad' a'r 'cerdyn gwarant llun' i'w cyhoeddi.
- Mae pob 'cyngor sy'n gwneud cais' yn gofyn yn ffurfiol am awdurdodiad swyddogion unigol a enwir.
- Mae pob 'cyngor derbyn' yn cael awdurdodiad ac yn darparu 'llythyr awdurdodiad' mewn perthynas â swyddogion yr awdurdod arall.
- Mae pob awdurdod cyflogi yn darparu cerdyn gwarant llun i'w swyddogion ei hun sy'n nodi, at ddibenion [nodwch Ddeddfau Seneddol], bod y swyddog [enw] yn swyddog awdurdodedig priodol o [rhestrwch yr holl gynghorau awdurdodi].
- Mae pob awdurdod yn darparu copïau o is-ddeddfau, amodau a methodolegau/mecanweithiau adrodd priodol i bob swyddog ar gyfer delio â cherbydau diffygiol a materion eraill o feysydd eraill.
- Mae pob awdurdod yn ceisio cymeradwyaeth wleidyddol ac ariannol ar gyfer gweithrediadau ar y cyd wedi'u cynllunio ymlaen llaw â'i gilydd a hefyd yr heddlu/Tollau a Threth CThEF.
- Mae protocolau rhannu data, yn ôl yr angen, yn cael eu sefydlu rhwng awdurdodau, gan gynnwys templedi rhoi gwybod am ddigwyddiadau / logiau

gweithredu safonol i'w defnyddio gan bawb ar gyfer cysondeb a chofnodi cynlluniau.

## Atodiadau i gyd fel dolenni wedi'u hymgorffori

***Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat: Canllawiau Trwyddedu***

***Ffioedd a Thaliadau'r Drwydded – Cyngor Sir Caerfyrddin***

***https://www.gov.uk/exchange-foreign-driving-licence***

***GOV.UK - Gwiriadau Cofnodion Troseddol ar gyfer Ymgeiswyr Tramor***

***Grŵp 2 Adroddiad meddygol ar gyfer gyrwyr tacsis neu gerbydau hurio preifat***: **group-2-medical-form.pdf**

***Tacsis a cherbydau hurio preifat: Polisi Eithriad Meddygol y Ddeddf Cydraddoldeb***

*Canllawiau ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau ym maes cerbydau hacni a hurio preifat*

*Hyfforddiant diogelu ar gyfer gyrwyr a chynorthwywyr teithwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat*

**Fideo hyfforddi gyrwyr: cludo defnyddwyr cadeiriau olwyn - https://youtu.be/uZZOKAjAKvQ?si=FSpUF6rz5F_HGcFG**

**Hyfforddiant gyrwyr tacsi a cherbydau hurio preifat: cludo teithwyr â nam ar y golwg - https://youtu.be/yn4ssPK9okM?si=uU30k4Ggi-gEfzz7**

**Fideo hyfforddi gyrwyr: diogelu plant - https://youtu.be/mlVOfBm8zhE?si=yh-hnQkuYA-8_R6P**

**Fideo hyfforddi gyrwyr: diogelu oedolion - https://youtu.be/mllj_OZ5Eg8?si=E5mZ3_rohtx4Ejw-**

**Fideo hyfforddi gyrwyr: profiadau teithwyr - https://youtu.be/2cdlmONKPxY?si=F03QIYGbYGCB651p**

*Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth*

Hafan - Asiantaeth Ardystio Cerbydau

*Tacsis a cherbydau hurio preifat: Manylebau ac amodau teledu cylch cyfyng | LLYW.CYMRU*

*Tacsis a cherbydau hurio preifat: polisi camerâu dangosfwrdd | LLYW.CYMRU*

*Canllawiau VOSA ar gyfer Gweithredwyr Limwsîns Hir*

*Canllawiau Arfer Gorau yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat*

*Trwyddedau Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat - Cerbydau sy'n Hygyrch i Gadeiriau Olwyn - Cyngor Sir Caerfyrddin*

*Datganiad Preifatrwydd Diogelu Data – Cyngor Sir Caerfyrddin*

*Trwydded Yrru Ddeuol - Cyngor Sir Caerfyrddin*

*Trwydded ar gyfer Cerbyd Hacni - Cyngor Sir Caerfyrddin*

*Trwydded Cerbyd Hurio Preifat - Cyngor Sir Caerfyrddin*

*Trwydded Gweithredwr Cerbydau Hurio Preifat - Cyngor Sir Caerfyrddin*

*Amodau Trwyddedu Limwsîns* - Cyngor Sir Caerfyrddin

*Tabl o'r Prisiau Uchaf - Sir Gaerfyrddin*

**Ffurflen Adrodd am Ddamweiniau** - **taxi-accident-report-form.pdf**

**Polisi Defnydd Arfaethedig – Polisi Defnydd Arfaethedig Trwydded Cerbyd Hacni**